

Gweithgareddau Posib

Seiliedig ar y gyfres


I'r Byw



Gweithgareddau llafar ac ysgrifennu yn seiliedig ar y deuddeg llyfr yn y gyfres *I'r Byw* a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Datblygwyd y gyfres hon gyda chymorth ACCAC.

WYNEB RWBER

Meleri Wyn James



Thema – Cynllwynio i smyglo cyffuriau

Trafod


- Carcharwyd Arnbak am wyth mlynedd. A gredwch fod wyth mlynedd yn ddigon yn yr achos hwn?
- Mewn grwpiau, trafodwch wahanol fathau o droseddau a pha gosb fyddai'n deilwng ymhob achos.
- A gredwch fod pobl yn dysgu o'u camgymeriadau neu a ydynt yn ail-wneud yr un camgymeriadau drosodd a throsodd?

Ysgrifennu

- Mae'r prifathro wedi penderfynu cynnal noson rieni er mwyn rhannu gwybodaeth am gyffuriau. Paratowch **gerdyn gwahoddiad** i'w danfon at rieni.
- Lluniwch **bamffled** syml yn cyflwyno gwybodaeth am wahanol gyffuriau i ddisgyblion iau yr ysgol.
- Lluniwch **holiadur dosbarth** i ddarganfod pa risgiau mae eich cyd-ddisgyblion wedi'u cymryd yn y gorffennol, pa rai hoffent eu cymryd a pha rai na fyddent byth yn ystyried eu cymryd. Gellir cofnodi'r risgiau ar ffurf siart ddosbarth a'u trafod.

Y WE

Meleri Wyn James



Themâu – Peryglon camddefnyddio stafelloedd siarad / Ofn

Trafod

- A ddylai plant a phobl ifanc gael rhwydd hynt i ymweld â stafelloedd siarad ar y We?
- Beth ddigwyddodd i Beca ar ddiwedd y stori yn eich barn chi? A gredwch iddi lwyddo i ddianc o gartref Sam?

Ysgrifennu

- Dychmygwch fod rhaid i chi draddodi **araith** o flaen y dosbarth ar y testun 'Ni ddylai plant dan 15 oed gael yr hawl i ddefnyddio'r cyfrifiadur yn eu hystafell wely.' Ysgrifennwch yr araithe i berswadio eich cyd-ddisgyblion i gytuno â chi. Gallwch ddadlau o **blaid** neu **yn erbyn** y gosodiad.
- Gofynnwyd i chi baratoi **taflen** yn rhybuddio plant ifanc am beryglon stafelloedd siarad. Lluniwch daflen liwgar yn rhoi cyfarwyddiadau pendant i'r plant ynglŷn â defnyddio'r We yn ddiogel.

ENNILL Y RAS

Elin Meek

Themâu - Cyffuriau / Twyll / Siom

Trafod


- Dylid gwahardd unrhyw berson sy'n cael ei ddal yn cymryd cyffuriau yn y byd chwaraeon rhag cystadlu yn y gamp honno am byth.

Chwarae rôl

- Mae Hywel a Gruffudd yn ceisio perswadio Llew i gymryd cyffuriau er mwyn iddo geisio sicrhau ei le yn y garfan fydd yn teithio i Ganada. Mewn grwpiau o 3, paratowch y sgwrs a fu rhyngddynt, ac yna cyflwynwch y sgwrs o flaen y dosbarth.

Ysgrifennu

- Dychmygwch mai chi yw Hywel neu Gruffudd. Ysgrifennwch eich **dyddiadur** noson treialon Cymru yn Abertawe. Cofiwch eich bod wedi cael prawf cyffuriau gan swyddog Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Dychmygwch fod Gethin Edwards, yr hyfforddwr, yn danfon **llythyr** at rieni Hywel a Gruffudd yn mynegi ei siom iddynt geisio twyllo yn y treialon. Ysgrifennwch y llythyr.



BABS

Elin Meek


Thema – Ymgais i dorri record y byd

Trafod

- 'Ffolineb yw peryglu bywyd er mwyn ceisio torri record o unrhyw fath.' A ydych yn cytuno gyda'r gosodiad hwn?


Ysgrifennu

- **Sylwebaeth** i'r orsaf radio leol gan ddychmygu eich bod ar draeth Pentwyn y diwrnod y cafodd Parry Thomas ei ladd. Canolbwyntiwch ar ddefnyddio'r synhwyrau a thraddodwch eich sylwebaeth o flaen gweddill y dosbarth.
- **Pamffled** yn cyflwyno gwybodaeth am y tri char sef Babs, Blue Bird a Sunbeam.



SMOTIAU

Addasiad Elin Meek



Themâu - Gwyddonias / Pethau rhyfedd

Trafod

- Dylai dyn fodloni ar fyw ar y Ddaear yn unig. Ni ddylai geisio ymhél â phlanedau eraill a bywyd y gofod.
- Petaech chi'n cael cyfle i deithio nôl mewn amser, trafodwch pwy fydddech wedi hoffi bod a pham? Cyflwynwch eich sylwadau i weddill y dosbarth.

Ysgrifennu


- Dychmygwch fod person ifanc o'r un oed â chi wedi teithio nôl mewn amser o'r flwyddyn 2080. Mae popeth yn ddiethr iddo. Dewiswch unrhyw ddyfais sy'n ddefnyddiol ac ysgrifennwch **gyfarwyddiadau** ynglŷn â sut i'w defnyddio.
- **Ymson** Morffus ar yr adegau canlynol:
Cyrraedd y blaned Mawrth / argraffiadau cyntaf
Darganfod y blodau melyn a'r llyn iâ

Noson y storm

Cyrraedd nôl ar y Ddaear

Y CYNRHONYN

Addasiad Elin Meek



Themâu - Pethau rhyfedd / Cosb

Trafod


- A gawsoch fai ar gam erioed? Beth oedd yr amgylchiadau? Beth oedd y canlyniadau?
- Ni ddylid carcharu rhywun sydd yn ei amddiffyn ei hun mewn argyfwng neu sefyllfa pan fo rhywun yn ymosod arno ef yn gyntaf.

Ysgrifennu

- Dychmygwch eich bod yn cael eich meddiannu gan anifail rhyfedd sy'n eich gorfodi i wneud pethau yn erbyn eich ewyllys. Ysgrifennwch **stori** yn seiliedig ar hyn.
- Dychmygwch eich bod yn cael ymweld â'r carchar i gynnal **cyfweiliad** gyda phrif gymeriad y stori. Paratowch restr o gwestiynau a fyddai'n addas i'w holi. Yna ceisiwch eu hateb yn unol â'r dystiolaeth yn y llyfr.

LLYGAD DRYGIONI

Addasiad Elin Meek



Themâu - Bwlian / Camdriniaeth / Rhagfarn ar sail anabled

Trafod


- Ydych chi erioed wedi bod yn dyst i fwlian neu efallai wedi cael eich bwlian gan eraill? Trafodwch eich profiadau.
- Sut dylech chi helpu cyd-ddisgybl sy'n cael ei fwlian yn yr ysgol?
- Beth dybiwch chi ddylai'r gweithwyr fod wedi ei wneud i helpu Gruffudd? Beth tybed oedd teimladau Gruffudd? Ydy hi'n wir i ddweud bod y gwan mewn cymdeithas bob amser yn dioddef?

Ysgrifennu

- **Cerdd** yn dwyn y teitl Y Bwli.
- **Disgrifiad** o fwli yn eich barn chi. Dylech feddwl am y nodweddion canlynol: golwg, gwisg, ffordd o siarad, agwedd at eraill, ffordd o gerdded, ymddygiad ayb.

TRYCHINEB MEDI 11

Addasiad Elin Meek



Themâu – Terfysgaeth / Dewrder

Trafod

- Ai pobl ddewr neu bobl wan yw pobl sy'n cyflawni hunanladdiad yn enw rhyw achos?
- Pa bobl mewn cymdeithas sy'n amlygu dewrder yn eich barn chi? Trafodwch alwedigaethau (dynion gwasanaethau argyfwng) anabledau (pobl megis Tanni Grey Thompson, Christopher Reed) amgylchiadau (damweiniau) trychinebau (Aberfan).

Ysgrifennu

- Lluniwch **fwletin newyddion** i Radio Cymru yn seiliedig ar ddigwyddiadau bore Medi 11, 2001.
- **Portread** o Pitch Picciotto, y dyn tân o Efrog Newydd a lwyddodd i ddianc wedi'r trychineb mawr.

LLADRON DIEMWNT Y GROMEN

Addasiad Elin Meek

Thema – Cynllwynio i ddwyn

Trafod


- Ai gwir y gosodiad mai 'Ffylliaid oedd y lladron,' a bod y digwyddiad yn 'fwy o gomedï na ffilm James Bond'?

Chwarae Rôl

- Dychmygwch yr achos yn y llys. Bydd angen dewis barnwr, tystion, rheithgor, twrneiod, amddiffynyddion, erlynydd, clerig y llys, heddlu ayb. Chwaraewch rôl y sefyllfa.

Ysgrifennu

- **Adroddiad papur newydd** yn seiliedig ar ddigwyddiadau 7 Tachwedd, 2000.
- **Ymson** un o'r lladron y noson y'i dedfrydwyd i garchar.



'NÔL I'R GWYLLT

Addasiad Elin Meek


Themâu - Anifeiliaid yn eu cynefin / Cam-drin anifeiliaid

Trafod

- 'Mae'n greulon i gadw anifeiliaid gwylt mewn cawell a'u hyfforddi i ddifyrru pobl. Dylid cau pob sw a syrcas.' Beth yw eich barn chi?
- 'Sefydliad addysgol yw sw, nid lle o adloniant yn unig.' A ydych yn cytuno gyda'r gosodiad hwn?


Ysgrifennu

- **Traethawd** yn mynegi eich barn ar un o'r safbwyntiau uchod, neu **ddadl** ar ffurf sgwrs rhwng dau berson sy'n coleddu safbwyntiau gwahanol.
- **Cerdd ddyfalu** – Yr Eliffant.
- Lluniwch **boster** i hysbysebu ymweliad eich ysgol â'r sw neu'r syrcas.



TORRI'N RHYDD

Addasiad Elin Meek



Themâu – Gormes / Hiliaeth

Trafod

- ‘Dylai pawb gael eu trin yr un fath, beth bynnag fo lliw eu croen, eu crefydd, eu diwylliant a’u hiaith.’
A ydych yn cytuno gyda’r safbwynt hwn?
- Mae sawl achos o hiliaeth wedi bod ar feysydd pêl-droed yn ddiweddar. Sut dylai clybiau fynd i’r afael â’r broblem hon yn eich barn chi?


Ysgrifennu

- **Llythyr** at olygydd papur newydd yn cefnogi safbwynt Tim Jenkin yn ei frwydr yn erbyn apartheid yn Ne Affrica.
- Lluniwch **boster** a fyddai’n addas i’w ddefnyddio ar hysbysfyrddau meysydd pêl-droed yn dangos safbwynt y clwb ar hiliaeth.

Edrychwch ar www.anc.org.za/misc/nkosi.html i weld geiriau anthem genedlaethol De Affrica

TAWEL NOS

Addasiad Elin Meek



Themâu - Ofn / Herwgipio / Diogelwch personol

Trafod

- Beth ddylen ni wneud i sicrhau ein diogelwch personol yn y gymdeithas?
- Mewn grwpiau, trafodwch y dadleuon o blaid ac yn erbyn trawsblannu organau.
- A ddylid gorfodi pobl i gario Cerdyn Rhoddwr Organau?

Ysgrifennu

- **Stori arswyd** neu **Ysgrif** – Ofn.
- Paratowch **Stribed Cartŵn** yn cyfleu’r stori *Tawel Nos*.

